

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd brynhawn Mawrth 21 Tachwedd 2017 am 2pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Cwm Clydach.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cabinet – oedd yn bresennol:

A. Morgan M. Webber M. Norris

R. Bevan R. Lewis A. Crimmings J Rosser G. Hopkins

C. Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr C. Hanagan – Cyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus (Ysgrifennydd i'r Cabinet)

Mr C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr T. Wilkins – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Ms E. Thomas – Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Dros Dro

Ms J. Cook – Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio

Mr P. Mee – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Mr B. Davies – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol

Mr K. Nicholls – Rheolwr Gweithrediadau Hamdden

76. DATGAN BUDDIANT

Cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud gan y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol M. Webber, R. Bevan, ac A. Crimmings ynglŷn ag eitem 6 ar yr agenda. Pan gafodd trafodaeth a phleidlais eu cynnal ynglŷn â'r eitem, gadawodd y tri Aelod y cyfarfod:

“Rydw i'n aelod o Bwyllgor y Cabinet – Parc Coffa Ynysangharad. Yn ôl cylch gorchwyl y Pwyllgor yma, dydw i ddim yn cael bod yn bresennol na chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth na phenderfyniad gan y Cabinet, y Cyngor, neu Bwyllgor ynglŷn ag unrhyw bolisi, neu ddatblygiad, neu fater fydd, o bosibl, yn effeithio ar y Parc, a rhaid i mi ddatgan buddiant a gadael y cyfarfod pan fydd mater o'r fath yn codi.”

77. COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2017, yn rhai cywir.

78. ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio yr Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol i'r Aelodau, yn ogystal â diwygiadau i restr Rheoliad 123 i'r Aelodau gael gwneud sylwadau.

Cafodd yr Aelodau fanylion am incwm a gwariant o ran Ardoll Seilwaith Cymunedol, a rhestr Rheoliad 123 roedd angen ei diwygio yn dilyn ystyriaeth flaenorol gan y Cabinet ar 8 Medi 2016. Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio fanylion i'r Aelodau am y chwe newid arfaethedig i brosiectau priffyrdd yn rhan o restr Rheoliad 123. O ran rhestr Rheoliad 123, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau o'r Cabinet hefyd – yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet – byddai'r rhestr yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor am 28 o ddiwrnodau ac, os na ddaw unrhyw sylwadau anffafriol i law, bydd modd mabwysiadu rhestr Rheoliad 123.

Meddai'r Cyfarwyddwr hefyd fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad – a byddai hysbysiad pellach o'r rhestr yn cael ei ddsbarthu ymhlith pob Aelod Etholedig, pob Cyngor Tref a Chymuned, ac Aelodau o Fforwm y Cyngor ar gyfer Datblygwyr.

Gwnaeth y Cynghorydd R. Bevan – Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai – sylwadau ar yr adroddiad, gan ddatgan byddai derbyniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn gymharol isel yn ystod dwy flynedd gyntaf ei weithredu oherwydd cafodd caniatâd cynllunio ei roi i'r rhan fwyaf o'r gwaith datblygu presennol yn y Fwrdeistref Sirol cyn rhoi Ardoll Seilwaith Cymunedol ar waith.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:-**

- a) Derbyn cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (Atodiad A i'r adroddiad).
- b) Derbyn rhestr ddiwygiedig Rheoliad 123 (yn rhan o Atodiad B i'r adroddiad) i'w chyhoeddi ar wefan y Cyngor am gyfnod o 28 o ddiwrnodau a chyfnod ymgynghori fel sydd wedi ei egluro ym mharagraff 5.10 yn yr adroddiad, sef rhoi gwybod am yr ymgynghoriad i bob Aelod Etholedig, pob Cyngor Tref a Chymuned, ac Aelodau o Fforwm y Cyngor ar gyfer Datblygwyr.

79. DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT: RHAGLEN WEITHREDU'R RHAGLEN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT RHANBARTHOL

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant grynodedd i'r Aelodau o'r gwaith hyd yn hyn o ran rhaglen weithredu'r rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Rhanbarthol.

Cafodd manylion eu rhoi i'r Aelodau am ddatblygiadau gan Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf i greu Cronfa Gyfun Ranbarthol (Pobl Hŷn) ar gyfer llety cartrefi gofal; canlyniad y rhaglen ymgysylltu ynglŷn â'r Datganiad o Fwriad Strategol

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

Rhanbarthol ar gyfer Plant, Pobl Ifainc ac Oedolion ag Anableddau Dysgu a'r bwriad pellach i ymgynghori ymhellach â defnyddwyr gwasanaethau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet.

Cafodd manylion eu dosbarthu hefyd am yr achlysuron ymgynghori sydd wedi cael eu cynnal, gyda'r Cyfarwyddwr Cyfadran yn ychwanegu bod achlysuron o'r fath wedi cael eu cynnal i helpu codi ymwybyddiaeth ac i geisio barn y cyhoedd a'r rhanddeiliaid ar y gwaith sy'n cael ei wneud.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod pob un o'r sefydliadau partner yn ardal Cwm Taf yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau ledled y rhanbarth sy'n ymateb i anghenion plant, pobl ifainc, oedolion a theuluoedd sy'n agored i niwed. Aeth yn ei flaen drwy ychwanegu bod pob un o'r partneriaid wedi ymrwymo i hyrwyddo gwasanaethau ymatebol o safon uchel i'r cyhoedd, ond, maen nhw hefyd yn cydnabod bod rhaid iddyn nhw hefyd weithio gyda'i gilydd os yw gwasanaethau i'w cael eu trawsnewid i wynebu'r heriau.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant yn gadarnhaol am yr adroddiad a'r argymhellion arfaethedig, gan ychwanegu ei bod hi'n bryd iddyn nhw ddwyn ffrwyth, gan gyfeirio at y canlyniadau cadarnhaol sydd i'w gweld yn barod trwy'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth ('MASH') a'r Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y gyllideb gyfun ar gyfer llety cartrefi gofal, a gofynnodd am ragor o'r wybodaeth ddiweddaraf am yr agwedd yma.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Gyfun Ranbarthol ar gyfer llety cartrefi gofal.
- b) Ategu'r Datganiad Rhanbarthol ar Sefyllfa'r Farchnad (llety cartrefi gofal).
- c) Nodi canlyniad y broses ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ac ategu'r fersiwn derfynol o'r Datganiad Rhanbarthol o Fwriad Strategol ar gyfer Plant, Pobl Ifainc ac Oedolion ag Anableddau Dysgu a'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (yn rhan o Atodiad 4 i'r adroddiad).
- d) Awdurdodi swyddogion i ymgymryd â'r rhaglen ymgysylltu arfaethedig, fel sydd wedi ei nodi yn y cynllun ymgysylltu, ar ôl ystyried y fersiwn ddrafft o'r Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Cefnogi Plant, Pobl Ifainc a Theuluoedd.

80. BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet gopi o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer 2016/17 i'r Aelodau, yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Arweinydd.

Ac yntau'n Gadeirydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant ddiolch i'r Aelodau am gyfle i gyflwyno adroddiad ei Bwyllgor, oedd yn rhoi crynodeb o'r gwaith da yn ystod y flwyddyn 2016/17. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet yn gadarnhaol am waith y Bwrdd, oedd wedi parhau i ymrwymo i wella'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu ar gyfer plant a phobl ifainc yn y system Plant sy'n Derbyn Gofal.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at yr adroddiad, oedd yn tynnu sylw at ymweliadau â'r rheng flaen gan holl aelodau'r pwyllgor, a phresenoldeb cynrychiolwyr pobl ifainc o'r Fforwm Glasbrint mewn nifer o gyfarfodydd y Bwrdd, i helpu'r Aelodau i sicrhau bod y gwasanaethau presennol yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r rhai sydd eu angen.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ddiolch i Aelodau a Swyddogion y Bwrdd Rhianta Corfforaethol 2016/17, a chrosawodd waith yr aelodaeth newydd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

- a) Nodi Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2016/17.

81. PARC COFFA YNYSANGHARAD – MEYSYDD CHWARAE CYMRU – CAEAU CANMLWYDDIANT

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – yr Aelodau at ei adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer ymrwymo i weithred gyflwyno fyddai'n rhoi statws 'Caeau Canmlwyddiant' – gan yr elusen Meysydd Chwarae Cymru ('Fields in Trust') – i Barc Coffa Ynysangharad.

Meddai'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod gwaith datblygu oedd wedi ei wneud hyd yn hyn i gefnogi cyflwyno cais am gyllid Parciau i Bobl i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Parc Coffa Ynysangharad wedi amlygu'r angen i godi proffil y Parc fel parc coffa neilltuol. Ychwanegodd fod yr elusen Meysydd Chwarae Cymru ('Fields in Trust') yn sicrhau hyn trwy waith hyrwyddo'r rhaglen yn rhanbarthol ac ar draws y Deyrnas Unedig. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Pwyllgor y Cabinet – Parc Coffa Ynysangharad – eisoes wedi ystyried a chefnogi'r eitem ar 1 Awst 2017.

Siaradodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant am amseroldeb y cais o ystyried canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn 2018, a siaradodd o blaid y cais am ymrwymo i weithred gyflwyno – meddai byddai hynny'n gwella presenoldeb y Parc ym maes twristiaeth ac ym maes hamdden. Ychwanegodd byddai statws y Parc hefyd yn parhau i gryfhau'r cysylltiadau â'r lluoedd arfog, oedd eisoes wedi eu hymgorffori'n dda yn yr Awdurdod.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) cytuno ar neilltuo Parc Coffa Ynysangharad yn Gae Canmlwyddiant;
- b) cyflwyno cais i'r elusen Meysydd Chwarae Cymru ('Fields in Trust') am neilltuo Parc Coffa Ynysangharad yn Gae Canmlwyddiant;
- c) rhoi rhagor o ystyriaeth i amlygu safleoedd priodol eraill yn y Fwrdeistref Sirol i'w neilltuo'n Gaeau Canmlwyddiant.

(**D.S.** Fel sydd wedi ei nodi yng nghofnod 76, pan gafodd trafodaeth a phleidlais eu cynnal ynglŷn â'r eitem yma, gadawodd yr Aelodau canlynol y cyfarfod: Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol M. Webber, R. Bevan, ac A. Crimmings.)

82. CANOLFAN HAMDDEN CWM RHONDDA FACH – CYFLEOEDD BUDDSODDI AC AD-DREFNU – YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – ei adroddiad i'r Aelodau, oedd yn cynnwys manylion am ganlyniadau'r broses ymgynghori gafodd ei chychwyn gan y Cabinet ynglŷn â'r bwriad i weithredu rhaglen o newidiadau yng Nghanolfan

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

Hamdden Cwm Rhondda Fach. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion manwl am adborth o'r trafodaethau rhagarweiniol gyda Phennaeth Ysgol Gymuned Glynrhedynog.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau roedd y cyfnod ymgynghori'n bedair wythnos o hyd, o 6 Hydref tan 3 Tachwedd 2017, a rhoddodd y swyddog fanylion am y dulliau gafodd eu defnyddio ar gyfer yr ymgynghoriad, gan gynnwys holiadur ar-lein, dau achlysur ymgysylltu ar ffurf "galw heibio", a thri ymweliad gwahanol â'r ganolfan gyda llechi i gael ymateb y rhai sy'n defnyddio'r dosbarthiadau, y gampfa, a'r pwll nofio yn ystod oriau brig.

Cafodd crynodeb o'r adborth ei gyflwyno, a rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod 77.6% o'r ymatebwyr o blaid y buddsoddiad arfaethedig. Roedd trafodaethau rhagarweiniol hefyd wedi cael eu cynnal gyda Phennaeth Ysgol Gymuned Glynrhedynog, gyda'r Pennaeth yn cytuno i weithio gyda'r Gwasanaethau Hamdden a'r garfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif i ystyried sut byddai modd i gyfleusterau chwaraeon yr ysgol, gan gynnwys y pwll nofio, fod yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Rhodddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden ddiolch i'r swyddogion oedd yn rhan o'r broses ymgynghori ac am gynnal trafodaethau rhagarweiniol gyda Phennaeth Ysgol Gymuned Glynrhedynog. Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet sylwadau ar sefyllfa freintiedig y Cyngor o ran cynnig buddsoddiad o'r fath, a chyfeiriodd at y gefnogaeth sydd wedi dod i'r amlwg trwy'r broses ymgynghori, ond, roedd yr Aelod yn cydnabod bod rhywfaint o'r adborth a ddaeth i law o blaid cadw'r pwll ar agor.

Mynegodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai ei siom nad oedd neb o'r cyhoedd wedi dod i'r cyfarfod ar y diwrnod hwnnw, a siaradodd am y farn gymysg roedd wedi dod ar ei thraws yn y gymuned leol ynglŷn â'r cynnig. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am ddyluniad gwael y pwll nofio o'r cychwyn, gan ychwanegu does dim fawr o le ar gyfer gwersi nofio i ysgolion a gwersi nofio i blant, a dydy'r pwll ddim yn addas i oedolion gael nofio mewn lonydd, felly, roedd yn croesawu'r adborth cadarnhaol gan Bennaeth Ysgol Gymuned Glynrhedynog o ran defnyddio'r pwll nofio. Yn olaf, gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet fyddai modd defnyddio'r ganolfan hefyd fel Canolfan i'r Gymuned.

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylwadau ar fuddsoddiad posibl yn Ysgol Gymuned Glynrhedynog i sicrhau ystafelloedd newid addas pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu ac ailddyrannu'r grant "nofio am ddim" gan Lywodraeth Cymru fel cymorth ychwanegol. Siaradodd yr Arweinydd hefyd am bosibilrwydd gosod cyfrifiaduron ychwanegol yn y Ganolfan i ganiatáu i'r cyhoedd gyrchu rhwydwaith llyfrgelloedd y Cyngor ac i ganiatáu i'r Ganolfan fod yn Ganolfan i'r Gymuned.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) nodi cefnogaeth gyffredin y rhai ymatebodd i'r ymgynghoriad ynglŷn â buddsoddi yng Nghanolfan Hamdden Cwm Rhondda Fach i'w gwneud hi'n fwy cynaliadwy;
- b) gweithredu'r cynnig o ran ad-drefnu Canolfan Hamdden Cwm Rhondda Fach, fel sydd wedi ei amlinellu isod, ar ôl ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a materion eraill sydd wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad:
 - i. Buddsoddi dros £500,000 a moderneiddio'r cyfleusterau fydd ar gael drwy drawsnewid y Ganolfan Hamdden yn gyfleuster hamdden ochr sych sylweddol, sy'n canolbwyntio ar ffitrwydd a chwaraeon dan do:
 - Cyfleuster ffitrwydd newydd sbon

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

- Cae chwaraeon 3G dan do newydd sbon
 - Cau'r pwll nofio a gwella capasiti pyllau nofio cyfagos yng Nghwm Rhondda
 - Datblygu partneriaethau gyda chlybiau chwaraeon lleol i greu llwybrau tuag at chwaraeon
 - Defnyddio rhan o'r adeilad ar gyfer swyddfeydd y Cyngor;
- c) nodi bod Pennaeth Ysgol Gymuned Glynrhedynog wedi cytuno i weithio gyda'r Cyngor i geisio darparu mwy o gyfleoedd nofio i'r cyhoedd ym mhwl yr ysgol; a
- d) bod goblygiadau ariannu gwaith ad-drefnu'r Ganolfan Hamdden yn destun adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yn y dyfodol.

83. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 30 MEDI 2017 (CHWARTER 2)

Rhoddodd Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Ariannol – grynodedb i'r Aelodau am gyflawniad y Cyngor dros chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Medi 2017) o ran materion ariannol a gweithredol.

Aeth y Cyfarwyddwr ati i drafod Crynodeb Gweithredol yr adroddiad yn fanwl, gan gynnwys cynnydd a data ariannol mewn perthynas â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Tynnodd y Swyddog sylw at eithriadau ym mhob un o'r adrannau manwl er mwyn yr Aelodau.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol sylwadau ar sefyllfa gadarnhaol y Cyngor, yr arbedion effeithlonrwydd parhaus, a'r buddsoddiadau newydd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

Refeniw

- a) Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel y mae ar 30 Medi 2017 (Adran 2 o'r adroddiad – Crynodeb Gweithredol).
- b) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau (wedi eu rhestru yn Adrannau 2a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad), sy'n uwch na'r trothwy o £0.100 miliwn yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cyfalaf

- c) Nodi'r gyllideb gyfalaf ddiweddaraf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 a newidiadau yng nghyfanswm cost prosiectau yn ystod y rhaglen dair blynedd (Adrannau 3a–f o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).
- d) Nodi manylion Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel y mae ar 30 Medi 2017 (Adran 3g o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

- e) Nodi sefyllfa chwarter 2 ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol cytûn (Adrannau 5a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad), Mesurau Cenedlaethol Eraill (Adran 5e o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad) a chymharu targedau 2017/18 â'r flwyddyn flaenorol a gwybodaeth am gyfartaledd cyflawniad Cymru gyfan (Adran 5f o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

(**D.S.** Ar ôl y penderfyniad, meddai Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yr eitem yn destun Rheolau Gweithdrefn 'Galw i mewn' y Cyngor oherwydd bod yr eitem yn mynd ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad.)

84. CADW AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD ALLAN O YSTAFELL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, o dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn â materion ariannol unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno). Mae tryloywder o ran cynnal busnes awdurdod lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd gwybodaeth ariannol bersonol yn cael ei thrafod a'i hystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, felly, oherwydd hynny, mae'n debygol na fydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

85. AILDDATBLYGU CANOLFAN SIOPA DYFFRYN TAF – ACHOS BUSNES

Tynnodd Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sylw'r Aelodau at yr adroddiad, oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig. Cafodd amlinelliad ei roi i'r Aelodau o amcangyfrif o gyfanswm cost Cynllun Ailddatblygu Canolfan Siopa Dyffryn Taf a'r pecyn ariannu arfaethedig.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

- a) Cytuno ar gyfanswm cost y cynllun; a
- b) Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y pecyn ariannu arfaethedig a'r gofyniad o ran benthyca darbodus ac ar gyfer cynnwys cyfanswm cost y cynllun yn rhaglen gyfalaf y Cyngor.

(**D.S.** Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet wybod i'r Aelodau byddai'r eitem, gyda chaniatâd y Maer, yn cael ei heithrio o'r broses 'galw i mewn' i gynnal y rhaglen gyflawni, fel sydd wedi ei hamlinellu yn yr adroddiad, a materion ariannu'r Achos Busnes – fydd yn destun penderfyniad y Cyngor yn y dyfodol.)

86. CYNON VALLEY WASTE DISPOSAL COMPANY LIMITED AC AMGEN RHONDDA LIMITED – CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol grynodedd i'r Aelodau o'i adroddiad, oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig. Tynnwyd sylw'r Aelodau at yr atodiadau i'r adroddiad oedd yn rhoi datganiadau ariannol y Cwmnïau sydd i'w cyflwyno i Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol y cwmni 'Cynon Valley Waste Disposal Company Limited' a'r cwmni 'Amgen Rhondda Limited' ("y Cwmnïau"), sydd i'w cynnal am 10.00am ar ddydd Mawrth 12 Rhagfyr 2017 yng Nghanolfan Addysg Amgen, Bryn Pica, Llwydcoed, Aberdâr.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiolch i'r Swyddogion enwebedig oedd yn ymwneud â'r Cwmnïau, sef Cyfarwyddwr Cyllid a Chyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

- a) Cadarnhau'r bwriad presennol i barhau i weithredu'r ddwy fenter fel cwmnïau sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod Lleol.
- b) Yn amodol ar fodloni Cyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen – (neu ei gynrychiolydd enwebedig) nad oes unrhyw afreoleidd-dra yng nghyfrifon y cwmni 'Cynon Valley Waste Disposal Company Limited' a'r cwmni 'Amgen Rhondda Limited' ("y Cwmnïau"), dylai'r cyfrifon gael eu derbyn ar ran y Cyngor.
- c) Ailbenodi Baldwins Audit Services Limited (KTS Owens Thomas gynt) yn archwilywr i'r Cwmnïau am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018.
- d) Fydd Swydd Cyfarwyddwr Mr Alun Maddox MBE, sy'n dod i ben yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2017, ddim yn cael ei hadnewyddu yn dilyn ymddeoliad Mr Maddox.
- e) Bydd Swyddi Cyfarwyddwyr yn parhau yn achos Cyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol.
- f) Awdurdodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol ac/neu ei enwebai i arfer pleidlais y Cyngor yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol y Cwmnïau yn unol ag argymhellion 2(b) i 2(e) uchod.
- g) Bydd Aelod o'r Cabinet yn cynrychioli'r Cyngor yn y Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol.

(**D.S.** Fel sydd wedi ei nodi yng nghofnod 76, pan gafodd trafodaeth a phleidlais eu cynnal ynglŷn â'r eitem yma, gadawodd Mr B. Davies, Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Ariannol – y cyfarfod.)

Daeth y cyfarfod i ben am 2:55pm

Y Cynghorydd A. Morgan

Cadeirydd